| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **Dydd Mercher 21 Tachwedd 2001** |
| **Lleoloiad** | **Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl** | **Grant Arbennig i Ofalwyr 2000 – Manylion Cynlluniau ar Gyfer Gofalwyr a Ddarperir Dan Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000** |

**Pwrpas**

1. Parparu i aelodau'r pwyllgor, enghreifftiau o gynlluniau i'w darparu dan Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 [Deddf 2000] a'u cyllido gan y Grant Arbennig i Ofalwyr 2001-2.

**Cefndir**

2. Daeth Deddf 2000 i rym yng Nghymru ar 1 Gorffennaf 2001 (ac eithrio'r cynlluniau talebau). Roedd hyn yn newid sylfaenol a ganiataodd am y tro cyntaf i'r awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau yn uniongyrchol i ofalwyr, yn dilyn asesiad llwyddiannus o'r angen - 'asesiad y gofalwyr'. Roedd Deddf 2000 hefyd yn ymestyn y drefn o dalu'n uniongyrchol am y gwasanaethau a ddarperir fel arall gan yr awdurdod lleol i ofalwyr, pobl â chyfrifoldeb rhieni am blentyn anabl a phlant anabl 16 ac 17 blwydd oed.

3. Gwnaeth Grant 2001-2 gynnwys darpariaethau Deddf 2000, a chaniatáu i'r awdurdodau lleol gynnig ystod ehangach o wasanaethau uniongyrchol amrywiol ar gyfer gofalwyr. Mae grant eleni o £3.7 miliwn yn cynnwys cyllid ychwanegol (£0.7 miliwn yn fwy na grant 2000), er mwyn i'r awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau newydd yn uniongyrchol i ofalwyr. Mae tabl A yn rhestru'r dyraniad i bob awdurdod. Darparwyd arian (£1 miliwn) ar wahân i awdurdodau hefyd am gynnal asesiadau'r gofalwyr dan y dyfarniad ynghylch baich y gofalwyr hynny.

4. Mae awdurdodau lleol, sefydliadau/grwpiau prosiect gofalwyr a gofalwyr eu hunain wedi cynyddu hyblygrwydd y gwasanaethau y gellir eu cynnig yn uniongyrchol i ofalwyr dan Ddeddf 2000. Mae bron pob un o'r cynlluniau yn cael eu harwain gan alw ac yn cael eu clustnodi fel rhan o ymgynghoriad yr awdurdodau â gofalwyr a chyrff unigol yngln â gwario'r grant. Mae prosiectau yn cyfateb i ryw 20% o'r grant, a rhestrir rhai enghreifftiau isod o'r cynlluniau sydd ar gael.

**Cynlluniau a ddarperir dan Ddeddf 2000**

<u>Sesiynau Gwybodaeth i Ofalwyr</u>

5. Enghraifft dda o asiantaethau allweddol yn cydweithio i ddarparu sesiynau gwybodaeth a sesiynau hyfforddi arbenigol ar gyfer gofalwyr newydd. Yn ddiweddar cafwyd chwe seminar (a arweiniwyd gan weithwyr proffesiynol amrywiol) ar gyfer pobl sy'n gofalu am rywun sy'n dioddef o *dementia*. Anelwyd y sesiynau at ofalwyr newydd, i'w haddysgu a'u paratoi ar gyfer y pwysau y gallant ddisgwyl tra'n gofalu am rywun â dementia. Mae'r pynciau yn cynnwys cymorth ymarferol i symud a thrafod rhywun, materion cyllidol a chyfreithiol, ymdopi ag ymddygiad sy'n anodd i'w drin ac ati.

Hyfforddi Gofalwyr

6. Mae awdurdodau wedi ymuno â cholegau, llyfrgelloedd, theatrau a busnesau lleol er mwyn darparu amrywiaeth o sgiliau ar gyfer gofalwyr - yn oedolion ac yn blant. Mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau cyfrifiaduron i ddechreuwyr, dosbarthiadau ieithoedd, drama, hunanamddiffyn, trin gwallt, creu ffilmiau ac ati. Mewn rhai achosion, darperir gwasanaeth gwarchod er mwyn caniatáu i ofalwyr fynychu'r cyrsiau.

Cynllun Gofal a Thrwsio'r Cartref

7. Mae'r cynllun yn cynnig gwasanaeth cynnal a chadw, gwaith atgyweirio cyffredinol, addurno, a thacluso ar ôl gwaith a wnaed gyda grant cyfleusterau i'r anabl. Mae'r cynllun ar gael i bob Gofalwr prun a yw'n berchen ar y t neu'n denant preifat/awdurdod lleol. Codir tâl am y deunyddiau ond mae grant y Gofalwyr yn talu am y llafur. Datblygodd y gwasanaeth yn dilyn ymgynghori â gofalwyr. Mynegodd y gofalwyr rwystredigaeth a straen am nad oeddent yn medru cynnal a chadw'u tai yn ogystal â gwneud y gwaith gofalu. Ceir mynediad i'r gwasanaethau hyn trwy'r broses asesu. Cânt eu gwerthuso gan dîm arbenigol, ac mewn amgylchiadau neilltuol, ni fydd tâl yn cael ei godi am y deunyddiau.

Tripiau i Ofalwyr

8. Wrth ymgynghori ynghylch y grant, cafwyd galw mawr gan y gofalwyr am deithiau byr un diwrnod, naill ai gyda'r bobl y maent yn gofalu amdanynt, neu hebddynt. Mae'r mwyafrif yr awdurdodau'n ymateb yn gadarnhaol i hyn ac yn cynnig cymysgedd o deithiau diwrnod a hanner diwrnod. Mae aelodau staff a chynorthwywyr yn mynd gyda'r grwpiau a gellir darparu offer arbennig e.e cadeiriau olwyn, offer anadlu ac ati, lle bo angen. Mae'r teithiau'n weddol lleol - hamddena, siopa, mynd am dro neu fynd am bryd o fwyd ac ati. Mewn sawl achos, mae'r gofalwyr yn mynd â'r sawl y maent yn gofalu amdano, ond gyda help y cynorthwy-ydd, gall pawb fwynhau'r profiad.

Gofalwyr ifanc

9. Bydd cyfran uchel o grantiau gofalwyr ifanc yn cael eu buddsoddi mewn datblygu sgiliau addysgiadol, emosiynol a chymdeithasol y gofalwyr ifanc, ac mewn gweithgareddau hamdden a chynlluniau hyfforddi. Mae clybiau cymorth yn canolbwyntio ar gynyddu hyder a sgiliau rhyngbersonol er mwyn hybu hunan-barch ac integreiddio sgiliau cymdeithasol. Bydd hyfforddiant hefyd yn cael ei

ddarparu yn yr agweddau ymarferol, rhoi meddyginiaeth, cadw t ac ati a glendid personol. Hefyd, fe fydd yna gyfres o wyliau preswyl yn yr haf i’r gofalwyr ifanc ganolbwyntio ar gael hwyl, amser i ymlacio a phrofiadau newydd.

Sesiynau Byw’n Iach.

10. Dewis o therapi lleihau straen neu weithgaredd i hybu Iechyd a Lles Gofalwyr. Gallant ddewis o blith adweitheg, aromatherapi, cyrsiau rheoli straen, tylino’r corff, sesiynau iechyd a ffitrwydd neu weithgaredd hamdden.

**Cydymffurfio**

11. Rhoddir y Grant Arbennig i Ofalwyr yn unol ag adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol. Mae grant 2000 yn cynnwys prif ddarpariaeth y Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl a ddaeth i rym yng Nghymru ar 1 Gorffennaf 2001.

**Gweithredu gan y pwyllgor pwnc**

12. Nid oes unrhyw themâu trawsbynciol wedi'u nodi.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt**: Donna Davies, Polisi Gofal Cymdeithasol 1, est 5860.

-----------------------------7d121452e470188 Content-Disposition: form-data; name="add_id_1"